Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Ymateb y Llywodraeth - Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith deulu breifat

Yn cau 15 June 2023
Ymateb a gyflwynwyd yn e-bost

## Cwestiynau:

**Cwestiwn 1: Ydych chi o blaid cyflwyno gofyniad gorfodol i rieni sy'n gwahanu (ac eraill fel neiniau a theidiau) gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd, os ydyn nhw a'u hamgylchiadau'n cael eu hystyried yn addas ac yn amodol ar yr un esemptiadau â'r rheini ar gyfer y gofyniad am gyfryngu (gweler Pennod 3), cyn iddynt allu gwneud cais i'r llys am orchymyn trefniadau plant neu orchymyn plant arall?**

• Ydw
• **Nac Ydw**
• Ddim yn gwybod

**Rhowch resymau dros eich ateb**

Ar bapur, mae'n ymddangos fel syniad da, ond gall troseddwyr ddefnyddio ymddygiad rheolaeth drwy orfodaeth i ddylanwadu ar y parti arall. Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn anoddach ei ganfod ac nid yw'n cael ei adnabod yn llwyr gan orfodaeth gyfreithiol gan nad oes niwed corfforol neu niweidiol yn cael ei nodi. Gallai'r effaith o gael eich gorfodi i fod mewn gofod wedi'i rannu gyda chamdrinwyr posib gael effaith negyddol ac ymestyn poen dioddefwyr. Gallai'r modd y bydd yn cael ei bennu a ydynt yn cael eu hystyried i fod yn addas ai peidio fod yn broblem, gall narsistiaid fod yn gyfeillgar iawn ac yn argyhoeddiadol nes nad ydynt yn cael eu ffordd eu hunain. Os yw naill barti neu'r llall yn honni camdriniaeth, corfforol, ariannol neu emosiynol/meddyliol, yna dylid cael IDVA sydd wedi derbyn hyfforddiant yn bresennol fel rhagofyniad fod yn rhan o'r gofyniad gorfodol, a hefyd os yn ystod y rhaglen y mae'r unigolion sy'n cynnal y rhaglen yn nodi unrhyw faneri, yna dylid gofyn i arbenigwr yn y maes Cam-drin Domestig i ymuno (byddai IDVA yn briodol).
Yn ogystal â hynny os oes gofyniad Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesiad Cyfryngu (MIAM) eisoes ar waith, efallai oherwydd diffyg cyfranogiad ac eithriadau cyfredol yna efallai awgrymu mai nad dyma'r dull mwyaf addas? Efallai y bydd y ffaith ei fod yn orfodol yn boddi'r system gyda gwasanaethau cefnogi sydd heb eu sefydlu ag adnoddau ar y raddfa hon, yn ogystal â pryderon diogelu cudd ar gyfer unigolion a theuluoedd.

**Cwestiwn 2: Os ydych chi o blaid hyn, a ydych chi o blaid ei wneud yn ofynnol cyn gallu dechrau cyfryngu?**

• Ydw
• **Nac ydw**
• Ddim yn gwybod

**Rhowch resymau dros eich ateb**
Nid oes gofyniad bob tro, yn enwedig os yw'r ddau barti wedi bod drwy'r broses o'r blaen, ond os ydynt yn penderfynu mynd yn syth i gyfryngu yna dylai'r dewis i gael ei gyfeirio yn ôl i'r rhaglen magu plant fod yn ddewis i'r cyfryngwr. Dylid monitro hyn i sicrhau nad yw'r dewis yn cael ei ddefnyddio i ymestyn y cyfnod y maent yn y broses, a allai fod yn arwydd o berthynas camdriniol yn emosiynol.

**Cwestiwn 3: A ddylid darparu gwybodaeth am broses y llys (gwybodaeth gyfreithiol heb ei theilwra) i'r rheini sydd mewn anghydfod cyfraith deulu breifat:**
**- yn y cyfarfod asesu a gwybodaeth am gyfryngu (MIAM)**
**- yn y rhaglen magu plant ar y cyd**
**- drwy adnodd ar-lein**
**- drwy unrhyw ddull arall (noder)**

**Rhowch resymau dros eich ateb**
Ie i bob un o'r dewisiadau hyn. Mae proses y llysoedd teulu yn ddryslyd ac nid yw'n cael ei esbonio'n iawn hyd yn oed pan mae gwasanaethau cymdeithasol yno. Mae llys y teulu yn cael ei ddiogelu rhag adrodd yn fwy na'r llysoedd barn, ac o ganlyniad mae pobl yn aml yn mynd i mewn i'r peth heb lawer o wybodaeth ar beth fydd yn digwydd. Gall y sawl ag annibyniaeth ariannol ac sy'n gallu fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol fod mewn safle gwell i ddilyn y broses. Mae hyn yn gadael y parti arall, a fyddai efallai yn agored i gam-drin domestig, dan fwy o anfantais

**Cwestiwn 4: Ar sail yr adnoddau ar-lein presennol, beth yw eich barn am ddarparu adnodd ar-lein gan y llywodraeth i helpu rhieni, gofalwyr ac efallai plant sy'n ymwneud ag achosion trefniadau plant? Pa wybodaeth ac adnoddau y dylid rhoi blaenoriaeth i'w darparu drwy unrhyw adnodd o'r fath i helpu teuluoedd i ddatrys materion yn gynharach?**
Dylid cael map llwybrau heb jargon, sy'n hawdd ei ddilyn, mewn sawl fformat ac iaith. Nid oes gan bob oedolyn yr un lefel o brosesu gwybyddol, ac ni ddylent fod dan anfantais oherwydd bod y wybodaeth a ddarperir yn anodd ei deall. Rhestr o dermau jargon a ddefnyddir yn y llysoedd teulu er gwybodaeth. Diagram syml o gynllun llys teulu arferol, ac ar lefel leol, un gyda lluniau, er gwybodaeth, yn benodol ar gyfer plant, a ellir ei ddefnyddio yn ystod un ai cyfryngu neu raglen magu plant oherwydd rhesymau diogelwch.
Gall templed syml ar gyfer cytundebau ganiatáu'r sawl o ardaloedd difreintiedig neu lle mae tlodi'n rhan o'r sefyllfa i allu gwneud cytundeb ffurfiol heb gynnwys llys teulu, o'i gymharu â'r sawl o ardaloedd cefnog a theuluoedd a allai gymryd mantais o gyfreithwyr preifat i sicrhau fod popeth yn gyfreithlon.
Dylid amlygu hefyd, hyd yn oed pan mae gwahaniad yn gyfeillgar gyda chytundeb anffurfiol ar waith, gall newid mewn amgylchiadau arwain at y cytundeb anffurfiol hwnnw'n methu, gan ddod â'r achos yn ôl i'r llys teulu am ystod o resymau. Mewn sefyllfa fel hyn, os oedd y trefniant

anffurfiol yn cael ei gefnogi gan gytundeb ffurfiol ysgrifenedig, byddai man cychwyn ar gyfer proses o beth y cytunwyd arno a lleihau'r posibilrwydd o wahaniaethau'n cael eu cyflwyno.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu ei bod yn briodol i gyfryngwyr benderfynu'r addasrwydd i gymryd rhan mewn rhaglen magu plant ar y cyd mewn cyfarfod i ddarparu gwybodaeth?**

• Ydw
• Nac ydw
• **Ddim yn gwybod**

**Rhwoch resymau dros eich ateb**

Mewn egwyddor, byddai hyn yn ymddangos yn briodol. Serch hynny, byddai'n dibynnu ar lefel sgiliau'r cyfryngwyr, eu gallu i beidio bod dangos rhagfarn, ac i nodi arwyddion (cudd efallai) o gamdriniaeth ar bob ffurf, gan beidio cael eu dallu gan gamdriniwr profiadol. Gall rhywun sy'n gallu rhoi gormodedd o sylw cariadus i ennill rheolaeth mewn perthynas allu swyno ac ymddangos yn rhesymol i'r cyfryngwr neu unigolyn arall o bosib.

**Cwestiwn 6: Allwch chi rannu unrhyw brofiad neu dystiolaeth ychwanegol o gyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys o wledydd eraill a'r gwersi a ddysgwyd o hynny?**

Na.

**Cwestiwn 7: Ym mha ffordd y dylai'r cyfarfod 'MIAM' cyn cyfryngu o dan y model arfaethedig hwn fod yn wahanol i'r MIAM presennol?**

Dylid cynnig cael IDVA (ac ISVA priodol) i fod yn bresennol, neu ar gael o leiaf, oherwydd gall y cyfryngwr mwyaf profiadol gael y sgiliau i adnabod camdriniwr a chefnogi dioddefwr fel arbenigwyr yn y maes cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dylid rhoi ystyriaeth i gyfranogiad gwasanaethau cefnogi lleol, gan nad yw cam-drin domestig yn cael ei erlyn bob amser, a dylai gweithredoedd unigolyn gael eu nodi fel adroddiad gan ddioddefwr posib.

Byddai angen adolygu meini prawf eithrio.

**Cwestiwn 8: Beth ddylai gael ei gyfrif yn "ymdrech resymol i gyfryngu"? A ddylid canolbwyntio ar nifer y sesiynau cyfryngu, yr amser a gymerwyd, agwedd y person at gyfryngu neu a oes posibiliadau eraill?**

Rydym o'r farn ei bod hi'n anodd manylu, ond dylid ei gysylltu er mwyn dangos cynnydd, a gallu'r partïon i gyfaddawdu, ond eto, byddai angen rheoli hyn yn ofalus. Gall llusgo'r broses fod yn ffurf o barhau i reoli a cham-drin, ac mae risg os yw un unigolyn yn cael eu ffordd bob tro, y bydd y broses gyfryngu'n cael ei defnyddio i reoli drwy orfodi, fel eu bod yn cael eu ffordd, gan nad yw un o'u ceisiadau yn cael ei weld yn benodol o ddadleuol.

Mae perygl yma, os oes rhestr wirio ar gyfer y cyfryngwr, ac nid oes datrysiad llwyddiannus yn cael eu nodi, bydd yn mynd yn erbyn yr unigolyn sy'n llai 'ymgysylltiol' er gwaethaf y posibilrwydd am sawl rheswm i hyn ddigwydd, gan gynnwys ofn a bygwth.

**Cwestiwn 9: a) Ydych chi'n cytuno y dylai ceisiadau brys, amgylchiadau o ran amddiffyn plentyn (sydd wedi'u nodi yn yr esemptiad presennol rhag MIAM), ac achosion lle mae tystiolaeth benodedig o gam-drin domestig, gael eu hesemptio rhag ymdrech i gyfryngu cyn mynd i'r llys?**

• **Ydw**
• Nac ydw
• Ddim yn gwybod

**Rhowch resymau dros eich ateb**

Mae cam-drin domestig ar bob ffurf, ac amddiffyn plant yn cynnwys dioddefwyr, a gall cael eu gorfodi i gyfryngu gyda chamdriniwr gyflwyno risg ychwanegol gan eu bod yn gwybod lle roedd y dioddefwr yn mynd i fod ar amser penodol. Ni fyddai'r baich emosiynol ar ddioddefwyr sydd hefyd yn mynd drwy brosesau llys barn yn briodol, ac yn ychwanegu at barhau'r gamdriniaeth. Lle mae un o'r unigolion yn honni bod cam-drin domestig wedi bod, ond nid oes cofnod o fewn cyrff statudol byddai'n briodol ymgysylltu gyda'r IDVA cyn ei symud i'r llys, os ydynt yn meddwl ei fod yn honiad ffug, yna dylent allu atgyfeirio'n ôl i gyfryngu. Tra bo honiadau ffug yn brin, dylid ei weld fel ffordd o atal y broses rhag cael ei chamddefnyddio gan y troseddwr neu rywun nad ydynt yn meddwl yn glir oherwydd poen emosiynol.

**b) Pa amgylchiadau ddylai fod yn argyfwng, yn eich barn chi?**

Pan mae camdriniaeth ar unrhyw ffurf, diogelu neu ddomestig, dylai fod yn argyfwng, a gellir ei symud i'r llys. Bydd plentyn neu oedolyn sydd mewn safle bregus yn agored i fwy o gamdriniaeth neu waeth yn cael ei adael i lawr gan system sydd ar waith i'w diogelu, ond hefyd grymuso'r troseddwr am rŵan, ond hefyd ar gyfer ddioddefwyr posib yn y dyfodol.
Dioddefwyr posib o: briodas dan orfod; masnachu pobl; caethwasiaeth dynol; a lle byddai risg o hedfan oherwydd pasbort deuol ar gyfer plant, os nad oes prosesau diogelu ar waith yn gyflym, gall arwain at gamdriniaeth neu gamfanteisio pellach oherwydd problem go iawn neu amheuon o broblem yn system a phrosesau yn y llysoedd teulu.

**Cwestiwn 10: Os ydych chi'n credu y dylai amgylchiadau eraill fod wedi'u hesemptio, beth yw'r rhain, a pham?**

Dylai cymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol fod yn eithriad hefyd. Mae camfanteisio troseddol ar blant, lle maent yn meddwl eu bod yn helpu rhieni, yn golygu bod risg ychwanegol os yw'r naill barti neu'r teulu ehangach (megis neiniau a theidiau) yn cymryd rhan mewn camfanteisio ar blant neu oedolion diamddiffyn at ddibenion troseddol.

**Cwestiwn 11: Sut y dylid asesu esemptiadau rhag y gofyniad gorfodol am gyfryngu a phwy a ddylai eu hasesu (hynny yw, barnwyr/cynghorwyr cyfreithiol ynadon neu gyfryngwyr)? A yw'ch ateb yn wahanol yn ôl y math o esemptiad?**

Dylai'r barnwr/system gyfiawnder gymeradwyo eithriadau yn seiliedig ar ddogfennaeth ysgrifenedig gan weithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol (ymwelwyr iechyd, meddygon, nyrsys, therapyddion), yr heddlu (gan gynnwys yr Asiantaeth Troseddu

Cenedlaethol), y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, sefydliadau cam-drin domestig, IDVA. ISVA a chyfryngwyr yn dibynnu ar yr amgylchiadau a phwy sydd neu wedi bod yn rhan o hyn.

**Cwestiwn 12: Beth yw'ch barn ynghylch darparu ar gyfer talu holl gostau cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys ar gyfer ceisiadau am rwymedi ariannol?**

Petai'n bwrw 'mlaen, ac nid ydym yn cytuno'n llwyr yna dylai'r cyllid ymddangos yn deg ac yn addas, petai meincnod sefydlog yn cael ei osod (lle uwchben hyn ni fyddai cefnogaeth, ac islaw hyn, ni fydd cefnogaeth) sy'n uniongyrchol yn effeithio'n negyddol y sawl sydd uwchben y llinell. Mae'r argyfwng costau byw wedi amlygu pa mor agos y mae teuluoedd i'r llinell dlodi sy'n effeithio ar deuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn draddodiadol a hefyd y cyrraedd y sawl a oedd yn cael eu hystyried yn ddosbarth canol yn y gorffennol. Mae methiant yr uned deuluol yn debygol o ychwanegu baich ariannol, yn benodol os nad oes un parti'n talu unrhyw beth tuag at gostau'r teulu (tŷ, bwyd, dillad, ac ati).

Os yw cyfryngu'n orfodol, ond heb ei ariannu, yna gallai pobl ddefnyddio'r system i gamdrafod ac achosi caledi ariannol drwy gam-drin drwy reolaeth.

**Cwestiwn 13: A yw cynllun achredu presennol y Cyngor Cyfryngu Teuluol (FMC) yn darparu'r mesurau diogelu sydd eu hangen neu a oes angen rheoleiddio ychwanegol?**

• Ydw
• Nac ydw – mae angen rheoleiddio ychwanegol
**• Ddim yn gwybod**

**Cwestiwn 14: Os ydych chi'n credu bod angen rheoleiddio ychwanegol, pam ac i ba bwrpas?**

Mae'n anodd ei adnabod gan fod amgylchiadau pawb yn wahanol, ond mae ymwybyddiaeth ynghylch niwroamrywiaeth, hygyrchedd a bregusrwydd gwahanol, yn ogystal â sut i nodi rhagfarn eich hun ac ymddygiadau rheoli drwy orfodaeth a rheolaethol.

**Cwestiwn 15:**

**a) A ddylid ehangu'r gofyniad am gyfryngu cyn mynd i'r llys i gynnwys ymdrechion rhesymol i ddefnyddio mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR), neu a ddylai fod yn gymwys i gyfryngu yn unig?**

• Cyfryngau yn unig
**• Mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan I'r llys (NCDR)**
• Ddim yn gwybod

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda**

Os yw'r ddau barti'n barod i ymgysylltu mewn dulliau eraill o ddatrys anghydfod tu allan i'r llys, yna efallai bydd yn ffordd arall o gario'r broses ymlaen ac o ganlyniad galluogi parhad o'r gamdriniaeth os ydynt yna'n gorfod mynd drwy gyfryngu. Dylid arddangos bod y ddau barti'n gyfartal drwy unrhyw broses, ac nid bod un wedi cael y pŵer a gwthio drwyddo i gyd er eu lles

eu hunain, a fyddai'n enghraifft o ymddygiad rheoli drwy orfodi a rheolaethol arall, a allai fod yn arwydd eu bod yn droseddwr cam-drin domestig dan ddiffiniad Deddf 2021.

**b) Beth yw manteision ac anfanteision ehangu'r gofyniad?**
Byddai'n dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, ac o ganlyniad nid ydym yn meddwl ei bod yn briodol ein bod yn ateb y cwestiwn hwn, gan y bydd un peth o fantais mewn un sefyllfa, a pheth arall yn anfantais pan mae ymddygiad rheolaethol, rheoli drwy orfodi neu ffurfiau eraill o gamdriniaeth neu gamfanteisio yn bresennol.

**c) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fathau eraill o NCDR y dylai ei gynnwys?**
Mae'r ymgynghoriad yn rhestru tair ffurf: cymrodeddu, 'cyfreithwyr cydweithiol' a thrafod gyda chyfreithiwr. Rydym yn meddwl ei bod yn bwysig bod y rhestr yn gallu cael ei ehangu i ganiatáu ar gyfer dewisiadau amgen y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth, a allai fod yn agored i'r sawl o gefndiroedd tlotach yn y dyfodol.

**d) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fframweithiau achredu/rheoleiddio a geir ar gyfer mathau eraill o NCDR a allai helpu pobl i setlo anghydfodau teuluol mewn ffordd sy'n cydfynd â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i achosion plant cyfraith breifat ac achosion rhwymedi ariannol?**
Rydym yn credu y dylid cael ffurf o achrediad sydd wedi'i gymeradwyo a'i gofnodi ar gyfer pob dewis NCDR sy'n mynd tu hwnt i hyfforddiant ffurfiol yn ôl gofyn y gyfraith. Gall dull mwy cyson o weithio mewn perthynas ag ansawdd arwain at brofiadau gwell ar gyfer pawb.

**e) Os yw'r gofyniad yn gymwys i gyfryngu yn unig, a ddylai'r ffaith bod dull arall o ddatrys anghydfod wedi'i gyflawni fod yn rhywbeth sy'n arwain at esemptio rhag y gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu?**
Oes o bosib, ond gweler atebion blaenorol mewn perthynas â'r risg o ran camfanteisio, rheoli drwy orfodi a ffurfiau eraill o ymddygiad sy'n rheoli, a allai fod yn fathau o gam-drin.

**Cwestiwn 16: Beth yw'r ffordd orau i warchod rhag camddefnyddio'r broses datrys anghydfodau cyn mynd i'r llys gan y partïon:**
**(i) A ddylid rhoi pŵer i'r llys i'w gwneud yn ofynnol i'r partïon eu hegluro eu hunain?**
Ie, ond gyda'r eithriad lle mae amheuaeth o ymddygiad rheoli drwy orfodi neu reolaethol yn dod i'r golwg yn ystod y broses.

**(ii) Pa bwerau y dylai'r llys eu cael er mwyn penderfynu a yw parti wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu, er enghraifft wrth ystyried gorchmynion costau posibl?**
Mae amgylchiadau yn debygol o gael effaith unwaith eto, ac o ganlyniad pa bwerau neu weithred sy'n debygol o fod yn wahanol, a gellir defnyddio deddfwriaeth arall, fel y defnyddir yn

aml gyda'r ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gweler hefyd ein hymateb i gwestiynau dan atebolrwydd, gorfodi a ffioedd.

**Cwestiwn 17: Sut byddai system fwy cadarn o orchmynion costau yn gallu cymell partïon mewn achosion llys i beidio ag osgoi ymdrechion rhesymol i gyfryngu cyn dod i'r llys neu ar ôl gwneud cais ac i beidio ymestyn achos yn ddiangen? A ddylai barnwyr barhau i gael disgresiwn i benderfynu pa bryd i wneud y gorchmynion hyn a pha gostau penodol i'w cynnwys?**
Nid ydym yn sicr y byddai costau yn cael yr effaith a ffefrir ar gyfer atal gwneud y broses yn hirach, gall fod yn iawn i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ond ar gyfer eraill, ni fyddai'n gweithredu fel arf ataliol.  Mae'n llwybr os oes unrhyw gostau yn gymwys dan hyn, os nad yw'n cael ei ystyried yn erbyn y canlyniad cyffredinol, gan fyddai'n well gan y sawl sy'n droseddwyr cam-drin a chamfanteisio fynd i'r llys i dderbyn arian a lleihau'r swm a ddyfernir i'w dioddefwyr, ac o ganlyniad yn ganlyniad annisgwyl.

**Cwestiwn 18: Unwaith y bydd achos wedi dod i mewn i'r system llysoedd, a ddylai'r llys gael y pŵer i orchymyn partïon i wneud ymdrech resymol i gyfryngu e.e., os yw'r amgylchiadau wedi newid ac nad yw esemptiad a hawliwyd o'r blaen yn berthnasol bellach? A oes gennych chi farn am yr amgylchiadau lle dylai hyn fod yn gymwys?**
Nid ydym yn meddwl bod hyn yn briodol, yn enwedig oedd yr eithriad yn sgil cam-drin domestig, amddiffyn plant, neu gamfanteisio troseddol (fel yr awgrymwyd yng nghwestiwn 10).
Pan mae eithriad oherwydd NCDR, yna gall hyn fod yn fwy priodol.

**Cwestiwn 19: Ym marn ymgyngoreion, pa ran a ddylai fod i ffioedd llys wrth gynnal amcanion cyffredinol y system cyfiawnder teulu? A ddylai fod yn ofynnol i bartïon gyfrannu mwy at gostau'r gwasanaeth llys y maent yn ei ddefnyddio?**
Na, nid ydym yn meddwl y byddai hyn yn risg i wasanaethau'r llys rhag bod yn rhagfarnllyd, a thu hwnt i afael y sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n mynd yn erbyn Deddf Cydraddoldeb 2010 gyda dyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dod yn nodwedd warchodedig ddeddfwriaethol yng Nghymru ym mis Mawrth 2021.